



# Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau

## Ffyrdd eraill o gyfathrebu â ni

Os oes angen braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, Hawdd i'w Ddarllen, sain neu rywbeth arall arnoch, cysylltwch â ni.

Os ydych yn defnyddio Relay UK, deialwch 18001 ac yna ein rhif ffôn.

Gallwch ddod o hyd i'n manylion cyswllt drwy chwilio am y budd-dal perthnasol ar [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

## Mae'n haws ffonio

Gallwch ofyn am Ailystyriaeth Orfodol dros y ffôn. Bydd eich cais yn cael ei ystyried yn union yr un ffordd. Mae'n llawer cyflymach a gallwch egluro pam eich bod yn meddwl bod y penderfyniad yn anghywir dros y ffôn, heb fod angen llenwi unrhyw beth. Mae'r rhif ffôn i'w ffonio ar frig eich llythyr penderfyniad.

## Y ffurflen hon

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol os nad ydych yn cytuno â phenderfyniad. Mae hyn yn golygu y bydd y swyddog penderfyniadau'n edrych ar eich cais eto i weld a oedd y penderfyniad yn gywir neu'n anghywir.

Mae'n bwysig i ni wneud y penderfyniad cywir. Er mwyn ein helpu i wneud hynny, bydd y ffurflen hon yn gofyn i chi:

- dweud wrthym pam y credwch fod y penderfyniad yn anghywir, a
- rhoi unrhyw wybodaeth newydd i ni nad ydym wedi'i gweld eisoes.

## Os ydych am ofyn am Ailystyriaeth Orfodol yn ysgrifenedig

Gallwch ddefnyddio'r ffurflen hon i ofyn am Ailystyriaeth Orfodol. Mae llyfryn i'ch helpu i lenwi'r ffurflen hon o'r enw CRMR1AW. Mae'n egluro pa wybodaeth y mae angen i chi ei chynnwys ac mae'n cynnwys enghreifftiau o'r mathau o wybodaeth y gallwn eu hystyried. Gallwch ei ddarllen ar-lein yn [www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol](http://www.gov.uk/ailystyriaeth-orfodol) Ewch i [www.gov.uk](http://www.gov.uk) i gael rhagor o wybodaeth am y broses Ailystyriaeth Orfodol.

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen:

- Gallwch deipio eich gwybodaeth yn lle ysgrifennu os yw'n haws i chi
- Rhaid i bawb gwblhau'r adrannau **Amdanoch chi, Pam rydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad a'r datganiad**
- Cwblhewch yr adran yn unig. **Os yw cynrychiolydd yn llenwi'r ffurflen** os ydych yn llenwi'r ffurflen ar ran rhywun arall, fel plentyn neu berson yr ydych yn ei gynrychioli.

## Ar ôl i chi lenwi'r ffurflen

- Argraffwch y ffurflen a'i llofnodi
- Postiwch y ffurflen yn ôl i'r cyfeiriad ar frig eich llythyr penderfyniad
- Anfonwch unrhyw dystiolaeth berthnasol arall ar yr un pryd
- Byddwn yn anfon neges destun neu lythyr atoch i ddweud ein bod wedi derbyn eich ffurflen
- Bydd y swyddog penderfyniadau gwahanol yn edrych ar eich cais ac unrhyw wybodaeth newydd a ddarperir gennych. Os gallant newid y penderfyniad, byddant yn gwneud hynny. Mae'n bwysig eich bod yn deall y gallai'r swm a ddyfernir i chi fynd i fyny, i lawr neu aros yr un fath. Gallai eich budd-dal gael ei atal hefyd
- Pan fyddwn wedi gwneud ein penderfyniad, byddwn yn anfon llythyr o'r enw Hysbysiad o Ailystyriaeth Orfodol atoch.



Os ydych yn anghytuno â phenderfyniad ar gyfer:

- Budd-dal Tai cysylltwch â'ch awdurdod lleol
- Budd-dal Plant, Lwfans Gwarcheidwad neu Gredydau Treth cysylltwch â HMRC.

**Amdanoch - y person rydyn ni wedi gwneud y penderfyniad yn ei gylch**

01

**Teitl**  
Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall

02

**Enw cyntaf**

03

**Enw olaf**

04

**Dyddiad geni**  
DD/MM/BBBB

05

**Rhif Yswiriant Gwladol (YG)**  
  
Gallwch ddod o hyd iddo ar ben y llythyr penderfyniad, eich cerdyn rhif Yswiriant Gwladol (YG), slipiau cyflog neu lythyrau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.  
  
Os ydych yn gofyn am Ailystyriaeth Orfodol ar ran plentyn, beth yw rhif Yswiriant Gwladol (YG) y plentyn os yw'n gwybod?

06

**Pa fudd-dal ydych chi'n gofyn am Ailystyriaeth Orfodol ohono?**

07

**Eich cyfeiriad presennol**  
  
  
Cod post

08

**Eich rhif ffôn**  
Cynhwyswch eich cod cenedlaethol neu leol.  
Cartref  
  
Ffôn symudol  
  
Efallai y bydd angen i ni eich ffonio am ragor o wybodaeth. Dywedwch wrthym pryd mae'n well cysylltu â chi.  
  
Bore dydd Llun  
Prynhawn dydd Llun  
Bore dydd Mawrth  
Prynhawn dydd Mawrth  
Bore dydd Mercher  
Prynhawn dydd Mercher  
Bore dydd Iau  
Prynhawn dydd Iau  
Bore Gwener  
Prynhawn dydd Gwener

## Os yw cynrychiolydd yn llenwi'r ffurflen

### 09 Ydych chi'n gynrychiolydd sy'n llenwi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall?

Wrth gynrychioli, rydym yn golygu rhywun nad yw'n berson yr ydym wedi gwneud penderfyniad yn ei gylch. Er enghraifft, gallai hyn fod yn ofalwr, rhiant, perthynas, ffrind, Dirprwy cyfreithiol ac ati.

Na **Ewch i gwestiwn 16**

Ydw

Os **ydych**, dywedwch wrthym amdanoch isod.

### 10 Eich teitl

Mr, Mrs, Miss, Ms neu arall.

### 11 Eich enw cyntaf

### 12 Eich enw olaf

### 13 Beth yw eich perthynas â'r person rydym wedi gwneud penderfyniad yn ei gylch?

Er enghraifft rhiant, gofalwr, Dirprwy cyfreithiol ac ati.

### 14 Eich cyfeiriad

Cod post

### 15 Eich rhif cyswllt

Cynhwyswch eich cod cenedlaethol neu leol.

Efallai y bydd angen i ni eich ffonio am ragor o wybodaeth. Dywedwch wrthym pryd mae'n well cysylltu â chi.

Bore dydd Llun

Prynhawn dydd Llun

Bore dydd Mawrth

Prynhawn dydd Mawrth

Bore dydd Mercher

Prynhawn dydd Mercher

Bore dydd Iau

Prynhawn dydd Iau

Bore Gwener

Prynhawn dydd Gwener

---

## Am y penderfyniad gwreiddiol

**16** A ydych yn gofyn i ni edrych ar eich penderfyniad eto o fewn mis i ddyddiad eich llythyr penderfyniad?

Na Os Na, dywedwch pam wrthym. Os oes angen, defnyddiwch y gofod ychwanegol yng nghwestiwn 21 o dan Gwybodaeth Bellach.

Ydw Ewch i **gwestiwn 17**, Pam yr ydych yn anghytuno â'r penderfyniad

## Pam rydych chi'n anghytuno â'r penderfyniad

Esboniwch yn eich geiriau eich hun pam yr ydych yn anghytuno â'r penderfyniad. Byddwch yn benodol a rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch. Os ydych yn anghytuno â mwy nag un rhan o'r penderfyniad, rhaid i chi ddweud pam eich bod yn anghytuno â phob rhan.

Darllenwch y llyfryn **CMR1AW 'Sut i anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau'** am enghreifftiau o wybodaeth a fydd yn helpu.

### 17 Pa ran(nau) o'ch penderfyniad ydych chi'n anghytuno â nhw a pham?

Os oes angen, defnyddiwch y gofod ychwanegol yng nghwestiwn 21 o dan Gwybodaeth Bellach.

### 18 A oes gennych unrhyw wybodaeth newydd nad ydym wedi'i gweld neu glywed amdani?

Na

Oes Os **Oes**, dywedwch pam wrthym

Rhestrwch yr holl wybodaeth newydd yr ydych yn ei hanfon gyda'r ffurflen hon. Ni fyddwn yn gallu ad-dalu unrhyw gostau os cewch dystiolaeth newydd. Darllenwch y llyfryn CMR1AW 'Sut i anghytuno â phenderfyniad a wnaed gan yr Adran Gwaith a Phensiynau' am enghreifftiau o wybodaeth a fydd yn helpu. Os oes angen, defnyddiwch y gofod ychwanegol yng nghwestiwn 21 o dan Gwybodaeth Bellach.

**19 A ydych wedi atodi'r holl dystiolaeth a restrir?**

Na Os Na, dywedwch pam wrthym

Ydw

Os oes angen, defnyddiwch y gofod ychwanegol yng nghwestiwn 21 o dan Gwybodaeth Bellach.

**20 Manylion pam nad ydych wedi atodi'r wybodaeth ychwanegol.**

Er enghraifft, efallai eich bod wedi gofyn am adroddiad meddygol ond nid yw wedi cyrraedd eto.

Os oes angen, defnyddiwch y gofod ychwanegol yng nghwestiwn 21 o dan Gwybodaeth Bellach.

---

# Gwybodaeth Bellach

|    |                                                                                                       |
|----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| 21 | Defnyddiwch y gofod hwn i ddweud wrthym unrhyw beth arall y credwch y gallai fod angen i ni ei wybod. |
|----|-------------------------------------------------------------------------------------------------------|

## Beth i'w wneud nawr

### Gwiriwch fod gennych chi neu'ch cynrychiolydd:

Wedi egluro pa rannau o'r penderfyniad rydych yn anghytuno â nhw a pham

Wedi atodi'r holl dystiolaeth ychwanegol

Llofnododd y ffurflen hon

## Datganiad

**Rwy'n deall** os byddaf yn rhoi gwybodaeth anghywir neu anghyflawn yn fwriadol, y gallaf fod yn agored i erlyniad neu gamau eraill.

**Rwy'n datgan** bod y wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.

**Eich enw**

**Eich llofnod**

**Dyddiad**

## Os ydych yn llofnodi'r ffurflen hon ar ran rhywun arall

Yn ogystal â'r ffurflen hon, anfonwch awdurdod wedi'i lofnodi i chi weithredu ar ran yr hawlydd. Nid oes angen i chi wneud hyn os ydych:

- eisoes wedi cofrestru fel penodai'r hawlydd neu Ddirprwy gyda DWP, neu'n
- rhieni neu warcheidwad cyfreithiol yr hawlydd.

## Rhagor o wybodaeth

### Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Deddf Cydraddoldeb' ar [www.gov.uk](http://www.gov.uk)

### Costau galwadau

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol personol a llinellau daear.

## Sut mae Adran Gwaith a Phensiynau yn casglu ac yn defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch efallai y byddwn yn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- cyflogaeth a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisi pensiynau preifat a
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai byddwn yn cael gwybodaeth amdanoch gan bartion eraill at unrhyw un o'n dibenion fel y mae'r gyfraith yn caniatáu i wirio'r wybodaeth byddwch yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel y mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i amddiffyn rhag trosedd.

Os ydych wedi cynnwys gwybodaeth bersonol oedolyn arall, dylech roi gwybod iddynt.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny, a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i

[www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol](http://www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol)